monmouthshire
sir fynwy

# Polisi Cyflogau 2026



# CYNNWYS


| | Tudalen |
|---|---|
| 1. CYFLWYNIAD | 3 |
| 2. DEDDFWRIAETH | 4 |
| 3. CWMPAS A DIFFINIADAU | 5 |
| 4. GWYBODAETH AM GYFLOGAU – PRIF WEITHREDWR AR DELERAU AC AMODAU'R PRIF WEITHREDWR | 8 |
| 5. GWYBODAETH AM GYFLOGAU – PRIF SWYDDOGION A PHENAETHIAID GWASANAETH AR DELERAU AC AMODAU PRIF SWYDDOG | 9 |
| 6. GWYBODAETH AM GYFLOGAU – CYFLOGEION AR DELERAU AC AMODAU 'LLYFR GWYRDD' Y CYFEIRIR ATYNT FEL "RHEOLWYR GWEITHREDOL" | 13 |
| 7. GWYBODAETH AM GYFLOGAU AR GYFER GWEITHWYR 'LLYFR GWYRDD' Y CYD-GYNGOR CENEDLAETHOL | 13 |
| 8. GWYBODAETH AM GYFLOGAU – CYFLOGEION NAD YDYNT YN RHAI 'LLYFR GWYRDD' A PHRIF SWYDDOGION | 15 |
| 9. DILYNIANT CYNYDDRANNOL | 15 |
| 10. RECRIWTIO - CYFLOG WRTH BENODI | 16 |
| 11. ADOLYGIAD CYFLOG – POB CYFLOGAI | 16 |
| 12. CYFRADD Y FARCHNAD | 16 |
| 13. CYNLLUN TALIADAU CYDNABYDDIAETH A THALIADAU GWEITHREDU MEWN SWYDD UWCH | 16 |
| 14. TALIADAU YCHWANEGOL | 17 |
| 15. LLUOSYDDION | 17 |
| 16. TALIADAU/COSTAU A CHYFRANIADAU | 18 |
| 17. TALIADAU DEWISOL | 19 |
| 18. GWNEUD PENDERFYNIADAU | 20 |
| 19. ADOLYGIAD O'R POLISI | 20 |
| ATODIAD 1 | 21 |

# 1. CYFLWYNIAD

Diben datganiad Polisi Cyflogau yw cynyddu atebolrwydd mewn perthynas â thaliadau a wneir i gyflogeion yn y sector cyhoeddus, drwy alluogi craffu cyhoeddus.
Mae Cyngor Sir Fynwy yn cydnabod bod angen i'r gydnabyddiaeth a roddir ar bob lefel fod yn ddigonol i sicrhau a chadw cyflogeion talentog sy'n ymroddedig i wasanaethu'r cyhoedd, ond ar yr un pryd mae angen osgoi bod yn hael neu'n anghymedrol yn ddiangen.

Mae cyhoeddi Polisi Cyflogau'n ategu gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy o fod yn agored ac yn deg. Nod y polisi hwn yw sicrhau bod yr holl gyflogeion cyflogedig yn cael eu gwobrwyo'n deg a heb wahaniaethu am y gwaith y maent yn ei wneud. Bydd yn adlewyrchu tegwch a chyfle cyfartal ac yn annog ac yn galluogi cyflogeion i berfformio hyd eithaf eu gallu, gan weithredu o fewn strwythur cyflog a graddio tryloyw.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn cydnabod nad cyflog yw'r unig ffordd o wobrwyo a chefnogi gweithwyr ac mae'n cynnig ystod ehangach o fanteision, e.e. gweithio hyblyg, mynediad at gyfleoedd dysgu a datblygu, ac ystod eang o bolisïau a buddion gweithle sy'n gyfeillgar i deuluoedd/gofalwyr.

Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn gallu pennu eu strwythurau cyflog eu hunain er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chystadlu yn y farchnad lafur leol.

Yn benodol, cydnabyddir bod rolau uwch reolwyr mewn llywodraeth leol yn swyddogaethau cymhleth ac amrywiol mewn amgylchedd gwleidyddol iawn, lle mae pwysau cenedlaethol a lleol yn aml yn gwrthdaro.

Mae gallu Cyngor Sir Fynwy i barhau i ddenu a chadw arweinwyr o safon uchel, sy'n gallu cyflwyno'r agenda cymhleth hwn, yn enwedig yn ystod y cyfnod her ariannol hwn, yn hollbwysig.

# 2. DEDDFWRIAETH

O dan Adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae gan y Cyngor y pŵer i ‘benodi swyddogion ar delerau ac amodau rhesymol sy'n briodol ym marn yr awdurdod’. Mae'r Datganiad Polisi Cyflog hwn yn nodi ymagwedd y Cyngor at gyflogau, yn unol â gofynion Adran 38 o Ddeddf Lleoliaeth 2011.

Mae'r Ddeddf Lleoliaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu a gwneud eu polisi cyflogau'n gyhoeddus ar bob agwedd ar gydnabyddiaeth y Prif Swyddogion (gan gynnwys pan fyddant yn rhoi'r gorau i ddal swydd) a chyflog y gweithwyr ar y cyflog isaf yn yr Awdurdod Lleol. Mae hefyd yn egluro'r berthynas rhwng cydnabyddiaeth y Prif Swyddogion a grwpiau eraill o gyflogeion. Mae'r Ddeddf a'r canllawiau ategol yn darparu manylion am faterion y mae'n rhaid eu cynnwys yn y polisi cyflogau statudol hwn ond hefyd yn pwysleisio bod gan bob awdurdod lleol yr ymreolaeth i wneud ei benderfyniadau ei hun ar faterion cyflog.

Rhaid i'r Polisi Cyflogau gael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor erbyn diwedd mis Mawrth bob blwyddyn, ond gellir ei ddiwygio yn ystod y flwyddyn, a rhaid ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Fynwy a rhaid cydymffurfio ag ef wrth bennu'r telerau ac amodau ar gyfer Prif Swyddogion a chyflogeion.

Wrth bennu cyflog a chydnabyddiaeth ei holl gyflogeion, bydd Cyngor Sir Fynwy yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol. Mae hyn yn cynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010, Rheoliadau Cyflogaeth Rhan Amser (Atal Triniaeth Llai Ffafriol) 2000, Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010 a lle bo hynny'n berthnasol Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Enillion) (sef TUPE). O ran y gofynion Cyflog Cyfartal a gynhwysir yn y Ddeddf Cydraddoldeb, mae'r Cyngor yn sicrhau y gellir cyfiawnhau'r holl drefniadau yn wrthrychol drwy ddefnyddio technegau gwerthuso swyddi, gan gynnwys pob swydd y Cyd-Gyngor Cenedlaethol newydd ac wedi ailwerthuso, sy'n cael eu cymeradwyo gan y Panel Gwerthuso Swyddi, yn unol â'r Polisi a Chanllawiau Gwerthuso Swyddi.

Wrth ei weithredu, mae'r polisi hwn yn ceisio sicrhau nad oes gwahaniaethu uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn erbyn gweithwyr ar unrhyw sail a waherddir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 sy'n cwmpasu oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

# 3. CWMPAS A DIFFINIADAU

Mae'r Polisi Cyflogau hwn yn cynnwys -

- Lefel y gydnabyddiaeth ar gyfer Prif Swyddogion
- Lefel y taliadau ar gyfer y gweithwyr ar y cyflog isaf
- Y berthynas rhwng cydnabyddiaeth Prif Swyddogion a swyddogion eraill
- Agweddau penodol eraill ar gydnabyddiaeth, ffioedd a thaliadau'r Prif Swyddogion, a thaliadau dewisol eraill.

Mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn diffinio '**Prif Swyddogion**' fel:

**Y Prif Weithredwr**

**Prif Swyddogion Statudol:**

O fewn Cyngor Sir Fynwy, y rhain yw:

- Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Strategol, Adnoddau (sy'n ymgorffori Rôl y Swyddog Adran 151)
- Cyfarwyddwr Strategol, Dysgu, Sgiliau a'r Economi
- Cyfarwyddwr Strategol, Gofal Cymdeithasol a Diogelu
- Prif Swyddog, y Gyfraith a Llywodraethu (sy'n ymgorffori rolau statudol y Swyddog Monitro a Phennaeth Democratiaeth).

**Prif Swyddogion Anstatudol:**

Mae'r rhain yn swyddi anstatudol sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Swyddog Gweithredol. O fewn Cyngor Sir Fynwy, y rhain yw:

- Prif Swyddog, Cymunedau a Lle (daeth y swydd hon yn wag ar 18 Tachwedd 2024, a rhoddwyd trefniadau dros dro ar waith tan 1 Awst 2025). Arweiniodd y trefniadau dros dro hyn at ddau Ddirprwy Brif Swyddog presennol yn cymryd swyddi dros dro:
    - Prif Swyddog Dros Dro, Seilwaith
    - Prif Swyddog Dros Dro, Lle

- Prif Swyddog, Cwsmeriaid, Diwylliant a Lles (daeth y swydd hon yn wag ar 31 Mawrth 2025)
- Prif Swyddog, Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau.

Cafodd ailstrwythuro o'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol a'u llinellau adrodd ei weithredu o 1 Awst 2025 ymlaen. Mae'r ailstrwythuro hwn wedi dileu'r swydd Prif Swyddog, Cymunedau a Lle a'i ddisodli gyda dwy swydd barhaol:

- Prif Swyddog, Seilwaith
- Prif Swyddog, Lles a Lleoedd Cymunedol.

Mae'r ailstrwythuro hwn hefyd wedi dileu'r swydd Prif Swyddog, Cwsmeriaid, Diwylliant a Lles a'i disodli gyda swydd barhaol sy'n adrodd i'r Prif Swyddog Gweithredol, ond nad yw'n aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol:

- Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu ac Ymgysylltu.

Mae'r ailstrwythuro hwn hefyd wedi newid trefniadau rheoli llinell, fel bod y Pennaeth Newid Strategol, Partneriaethau a Chaffael hefyd bellach yn adrodd i'r Prif Swyddog Gweithredol, ond nid yw'n aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol.

**Dirprwy Brif Swyddogion**:

Mae'r rhain yn swyddogion sy'n adrodd yn uniongyrchol i Brif Swyddogion statudol neu anstatudol ac fe'u rhestrir isod.

Yn ogystal â'r prif swyddogion statudol ac anstatudol uchod, y swyddi sydd ar delerau ac amodau'r Prif Swyddogion o fewn Cyngor Sir Fynwy yw:

- Pennaeth Cyflawniad a Chyrhaeddiad
- Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
- Pennaeth Trawsnewid Busnes (deiliad swydd sydd wedi'i secondio i P-RC ar hyn o bryd).
- Pennaeth Gwasanaethau Plant a Diogelu
- Pennaeth Gwasanaethau Landlordiaid Integredig Masnachol
- Pennaeth Diwylliant, Cymuned, Dysgu a Digwyddiadau
- Pennaeth yr Economi, Cyflogaeth a Sgiliau
- Pennaeth Cyllid
- Pennaeth Cynhwysiant

- Pennaeth Gwybodaeth, Diogelwch a Thechnoleg
- Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd
- Pennaeth Hamdden a Lles
- Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth
- Pennaeth Cynllunio
- Pennaeth Trafnidiaeth
- Pennaeth Gwastraff a Datgarboneiddio

**Tîm Arweinyddiaeth Strategol:**

O fewn Cyngor Sir Fynwy, mae'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol yn cynnwys:

- Prif Weithredwr
- Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Strategol, Adnoddau (sy'n ymgorffori rôl Swyddog statudol Adran 151)
- Cyfarwyddwr Strategol, Dysgu, Sgiliau a'r Economi
- Cyfarwyddwr Strategol, Gofal Cymdeithasol a Diogelu
- Prif Swyddog y Gyfraith a Llywodraethu (sy'n ymgorffori rolau statudol y Swyddog Monitro a Phennaeth Democratiaeth)
- Prif Swyddog, Seilwaith
- Prif Swyddog Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau
- Prif Swyddog, Lles a Lleoedd Cymunedol.

Y cyfansoddiad rhywedd yw 6 swyddog gwrywaidd a 2 fenywaidd.

Mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddiffinio’r 'cyflogai ar y cyflog isaf' o fewn ein datganiad polisi cyflog. O fewn Cyngor Sir Fynwy ein gweithwyr ar y cyflog isaf yw'r rhai sy'n cael eu talu yn unol â'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Cafodd Cyngor Sir Fynwy ei achredu gan y Real Living Wage Foundation, fel Cyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol, ar 21 Hydref 2025.  Cyflog Byw Gwirioneddol y DU, yn weithredol o 1 Ebrill 2025 ymlaen, yw £12.60 yr awr.

Mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn diffinio cydnabyddiaeth fel 'cyflog, bonysau, taliadau, ffioedd neu lwfansau sy'n daladwy, unrhyw fuddion mewn nwyddau, cynnydd neu welliant o ran hawl pensiwn'. Mae'r diffiniad hwn wedi'i fabwysiadu ar gyfer y term "cyflog" a ddefnyddir yn y polisi hwn.

# 4. GWYBODAETH AM GYFLOGAU – PRIF WEITHREDWR AR DELERAU AC AMODAU'R PRIF WEITHREDWR

Penodir y Prif Weithredwr gan y Cyngor. Mae'r Prif Weithredwr yn cael ei ddewis ar sail teilyngdod, yn erbyn meini prawf gwrthrychol, yn dilyn hysbyseb gyhoeddus ac mae'n gweithio'n agos gydag Aelodau Etholedig i gyflawni nodau'r Awdurdod Lleol.

Mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol am ystod eang o wasanaethau, gan gyflogi tua 4,000 o weithwyr.

Mae'r gydnabyddiaeth ar gyfer y Prif Swyddog Gweithredol yn radd leol a sefydlwyd yn dilyn ymarfer adolygiad cyflog uwch swyddogion yn 2024/2025, gan gynnwys ymgynghori â Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, ac a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ebrill 2025. Cyflog y Prif Weithredwr yw £140,352 (yn weithredol o 10 Ebrill 2025). Cynyddodd cyflogau sylfaenol unigol yr holl swyddogion o fewn cwmpas y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol gan 3.20%, yn weithredol o 1 Ebrill 2025. Mae'r cytundeb cyflog yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026.

Nid oes unrhyw daliadau bonws, perfformiad, cydnabyddiaeth neu ex gratia ychwanegol. Mae'r cyflog yn amodol ar gynnydd cyflog y Cyd-Gyngor Cenedlaethol a gytunwyd yn genedlaethol ar gyfer Prif Weithredwyr awdurdodau lleol. O fewn Cyngor Sir Fynwy, y Prif Weithredwr sy'n dal rôl y Swyddog Cofrestru Etholiadol a'r Swyddog Canlyniadau. Mae'r ffi ar gyfer etholiadau Seneddol, Llywodraeth Cymru, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a phob refferendwm yn cael eu pennu gan ddeddfwriaeth. Mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i bennu'r ffi ar gyfer etholiadau lleol. Yn y Cyngor, caiff y ffi ar gyfer etholiadau lleol ei phennu yn unol â'r ffi y cytunwyd arni ar gyfer etholiadau Llywodraeth Cymru. Rhwng 1af Ebrill 2025 a 31ain Mawrth 2026, ni dderbyniodd y Prif Weithredwr unrhyw daliad am y rôl hon.

**Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**
Diwygiodd Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) Mesur 2011 drwy fewnosod Adran 143A. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw awdurdod perthnasol cymwys sy'n bwriadu newid taliadau ei Brif Weithredwr ymgynghori â'r Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol), oni bai bod y newid yn unol â'r newidiadau a gymhwysir i swyddogion eraill. Mae adran 143A hefyd yn galluogi'r Panel i gymryd barn ar unrhyw beth yn Natganiad Polisi Cyflog awdurdod lleol sy'n ymwneud â thâliadau'r Prif Weithredwr.

# 5. GWYBODAETH AM GYFLOGAU – PRIF SWYDDOGION A PHENAETHIAID GWASANAETH AR DELERAU AC AMODAU PRIF SWYDDOG

Mae Cyngor Sir Fynwy yn cyflogi Prif Swyddogion o dan delerau ac amodau Prif Swyddogion y Cyd-Gyngor Cenedlaethol, sydd wedi'u cynnwys yn eu contractau.

Yn dilyn ymarfer adolygu cyflog uwch swyddogion, a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 10 Ebrill 2025, gweithredwyd graddfa gyflog ddiwygiedig y Tîm Arweinyddiaeth Strategol. Tynnodd hyn Bandiau A ac A+ o raddfa gyflog y Prif Swyddog blaenorol ac o ganlyniad bydd graddfa gyflog y Prif Swyddog diwygiedig (ac eithrio cyflog y Tîm Arweinyddiaeth Strategol) yn cael ei gweithredu yn 2026. Roedd y gymeradwyaeth hon gan y Cyngor hefyd yn cynnwys argymhelliad i weithredu Cynllun Gwerthuso Swyddi Prif Swyddogion. Mae'r Cynllun CLIL wedi'i gymeradwyo a bydd yn cael ei weithredu a'i gysylltu'n uniongyrchol â'r ddau strwythur cyflog Prif Swyddog, yn 2026.

Mae'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion yn negodi ar gynnydd cyflog costau byw blynyddol (y DU) ar gyfer y grŵp hwn, a phenderfynir ar unrhyw ddyfarniad o'r un fath ar y sail hon. Mae gan Brif Swyddogion a gyflogir o dan delerau ac amodau'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol hawl gytundebol i unrhyw gynnydd cyflog a bennwyd gan y Cyd-Gyngor Cenedlaethol, a bydd y Cyngor hwn felly yn talu'r rhain yn unol â gofynion cytundebol. Cynyddodd cyflogau sylfaenol unigol yr holl swyddogion o fewn cwmpas y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol 3.20%, yn weithredol o 1 Ebrill 2025. Mae'r cytundeb cyflog yn cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026. Cynyddodd cyflogau sylfaenol unigol yr holl swyddogion o fewn cwmpas y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol gan 3.20%, yn weithredol o 1 Ebrill 2025.

**Tîm Arweinyddiaeth Strategol:**

| SWYDD | YSTOD | CYFLOG |
|---|---|---|
| Prif Weithredwr* | Hyd at £152,736 | £140,352 |
| Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Strategol, Adnoddau (sy'n ymgorffori rôl Swyddog statudol Adran 151) | Band A (TAS)<br>Pwyntiau 1-3 | £109,392<br>£111,456<br>£113,520 |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwr Strategol, Dysgu, Sgiliau a'r Economi<br><br>Cyfarwyddwr Strategol, Gofal Cymdeithasol a Diogelu<br><br>Prif Swyddog y Gyfraith a Llywodraethu (sy'n ymgorffori rolau statudol y Swyddog Monitro a Phennaeth Democratiaeth)<br><br>Cynyddodd cyflogau sylfaenol unigol yr holl swyddogion o fewn cwmpas y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol gan 3.20%, yn weithredol o 1 Ebrill 2025. | Band B (TAS)<br>Pwyntiau 1-3 | £101,652<br>£103,200<br>£104,748 |
| Prif Swyddog, Seilwaith<br><br>Prif Swyddog, Lles, Lle a Chymunedau | Band C (TAS)<br>Pwyntiau 1-3 | £86,172<br>£87,720 } Band C Is<br>£89,268<br><br>£90,816<br>£93,912 } Band C Uchaf<br>£95,976 |
| Prif Swyddog, Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau<br><br>Prif Swyddog, Cwsmeriaid, Diwylliant a Lles (swydd wedi'i dileu o 1 Awst 2025) | Band C (TAS)<br>Pwyntiau 1-3 | £86,172<br>£87,720<br>£89,268 |

* Yn dilyn yr adolygiad o daliadau'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol, cymeradwyodd y Cyngor uchafbwynt cyflog o £148,000 ar gyfer rôl y Prif Weithredwr (gan godi i £152,736 yn dilyn dyfarniad cyflog 3.20% 2025-26).

### Dirprwy Brif Swyddogion:

| SWYDD | YSTOD | CYFLOG |
|---|---|---|
| Pennaeth Cyflawniad a Chyrhaeddiad<br><br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Pennaeth Gwasanaethau Plant a Diogelu<br><br>Pennaeth Gwasanaethau Landlordiaid Integredig Masnachol<br><br>Pennaeth Cyllid | Band B<br>Pwyntiau 1-4 | £83,687<br>£85,046<br>£86,405<br>£87,765 |

| | | |
|---|---|---|
| Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd<br><br>Pennaeth Cynhwysiant<br><br>Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth<br><br>Pennaeth Newid Strategol, Partneriaethau a Chaffael | | |
| Pennaeth Trawsnewid Busnes (deiliad swydd sydd wedi'i secondio i P-RC ar hyn o bryd).<br><br>Pennaeth yr Economi, Cyflogaeth a Sgiliau<br><br>Pennaeth Gwybodaeth, Diogelwch a Thechnoleg | Band C<br>Pwyntiau 1-4 | £72,130<br>£74,849<br>£77,568<br>£80,289 |
| Pennaeth Diwylliant, Cymuned, Dysgu a Digwyddiadau<br><br>Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu ac Ymgysylltu<br><br>Pennaeth Hamdden a Lles<br><br>Pennaeth Cynllunio<br><br>Pennaeth Trafnidiaeth | Band D:<br>Pwyntiau 1-3 | £64,652<br>£67,371<br>£70,091 |

Daeth swydd y Prif Swyddog, Cymunedau a Lle yn wag ar 18 Tachwedd 2024, a rhoddwyd trefniadau dros dro ar waith tan 1 Awst 2025, yn dilyn ailstrwythuro aelodaeth a chyfrifoldebau'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol.

Rhoddwyd taliadau cydnabyddiaeth ar waith, yn unol â'r trefniadau dros dro, ar gyfer y Prif Swyddogion hyn:

- Derbyniodd y Prif Swyddog Dros Dro, Seilwaith tâl cydnabyddiaeth, yn cynyddu eu cyflog o Brif Swyddog Band B i Brif Swyddog Band A. Cafodd Band A ei ddileu, yn dilyn yr ymarfer adolygu cyflog uwch swyddogion, ond gwerth 4 pwynt y band cyflog hwn oedd:
    - £95,924
    - £97,283
    - £98,642
    - £100,002.

- Derbyniodd y Prif Swyddog Dros Dro, Lle tâl cydnabyddiaeth gan gynyddu eu cyflog o Brif Swyddog Band C i Brif Swyddog Band B.

Cymerodd y Prif Swyddogion canlynol gyfrifoldebau ychwanegol, gyda thaliadau cydnabyddiaeth ar waith, yn dilyn y newidiadau dros dro i'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol:

- Derbyniodd y Prif Swyddog, Cwsmeriaid, Diwylliant a Lles tâl cydnabyddiaeth yn cynyddu eu cyflog o Brif Swyddog Band B i Brif Swyddog Band A, yn weithredol o 21 Hydref 2024 hyd nes iddynt adael y sefydliad ar 31 Mawrth 2025. Cafodd y swydd ei dileu fel rhan o ailstrwythuro'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol, ar 1 Awst 2025.

Cymerodd y Prif Swyddogion canlynol gyfrifoldebau ychwanegol, gyda thaliadau cydnabyddiaeth ar waith, yn dilyn y newidiadau dros dro a pharhaol i'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol:

- Mae'r Cyfarwyddwr Strategol, Plant, Dysgu, Sgiliau a'r Economi a'r Cyfarwyddwr Strategol, Gofal Cymdeithasol a Diogelu yn derbyn tâl cydnabyddiaeth o £3,750 y flwyddyn. Mae hyn wedi bod yn weithredol ers 21 Hydref 2024 a bydd yn parhau i fod yn weithredol nes bod y newidiadau parhaol gofynnol yn cael eu gwneud i'w disgrifiad swydd a bod eu swydd wedi'i gwerthuso gan ddefnyddio'r Cynllun CLIL.

Nid oes unrhyw elfennau ychwanegol eraill o gydnabyddiaeth mewn perthynas â goramser, oriau hyblyg, gweithio ar wyliau banc, taliadau yn ôl ac ati, a delir i'r uwch gyflogeion hyn, gan fod disgwyl iddynt ymgymryd â dyletswyddau y tu allan i'w horiau cytundebol a'u patrymau gwaith heb daliadau ychwanegol. Nid oes cyflog ar sail perfformiad a dim bonysau. Fel cyflogwr cyfle cyfartal hysbysebir pob swydd.

Rhwng 1af Ebrill 2025 a 31aib Mawrth 2026, ni dderbyniodd y Swyddog Cofrestru Etholiadol a'r Swyddog Canlyniadau a'r Dirprwy Swyddog Cofrestru Etholiadol unrhyw daliad am y rolau hyn.

Rhaid i Brif Swyddogion a Phenaethiaid Gwasanaeth y mae eu graddau'n cynnig dilyniant cynyddrannol gyflawni dyfarniad 'cwrdd â'r disgwyliadau' o leiaf yn eu proses arfarnu flynyddol er mwyn symud ymlaen i'r pwynt cynyddrannol nesaf o fewn gradd.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn cyhoeddi manylion cyflog ar gyfer Prif Swyddogion ar y wefan. Mae'r wybodaeth i'w gweld yn y 'Datganiad Cyfrifon'.

## 6. GWYBODAETH AM GYFLOGAU – CYFLOGEION AR DELERAU AC AMODAU 'LLYFR GWYRDD' Y CYFEIRIR ATYNT FEL "RHEOLWYR GWEITHREDOL"

Rheolwyr Gweithredol yw'r rhai sy'n dod o fewn y diffiniad o Ddirprwy Brif Swyddog, ond sy'n cael eu talu ar delerau ac amodau'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol yn hytrach na thelerau ac amodau Prif Swyddogion. Mae eu cyflogau'n amrywio o raddau I – M, gyda'r isaf ar SCP 31 (£41,771) a'r uchaf ar SCP 51 (£63,827).

## 7. GWYBODAETH AM GYFLOGAU AR GYFER CYFLOGEION 'LLYFR GWYRDD' Y CYD-GYNGOR CENEDLAETHOL

Mae holl swyddi 'Llyfr Gwyrdd' y Cyd-Gyngor Cenedlaethol yng Nghyngor Sir Fynwy wedi bod yn destun proses gwerthuso swyddi gan ddefnyddio cynllun Cyngor Taleithiol Llundain Fwyaf, wedi'i ôl-ddyddio i 1 Ebrill 2009, yn dilyn llofnodi cytundeb ar y cyd (STATWS SENGL) gydag UNSAIN a GMB ar 2 Rhagfyr 2010. Mae Cyngor Sir Fynwy wedi cysylltu sgoriau canlyniadau'r gwerthusiad swydd yn uniongyrchol â strwythur cyflog y Cyd-Gyngor Cenedlaethol.

Mae gan strwythur graddio Cyngor Sir Fynwy 13 gradd gyda 5 cynnydd mewn deg o'r graddau, 4 cynnydd yn un o'r graddau, 3 chynnydd yn un o'r graddau a 2 gynnydd yn un o'r graddau. Mae'r graddau'n rhychwantu ar draws bwyntiau SCP 1-51 gyda chyflogau cysylltiedig o £24,413 (SCP 2) i £63,827 (SCP 51). Mae rhagor o wybodaeth am Gynllun Gwerthuso Swyddi Cyngor Taleithiol Llundain Fwyaf a'r graddau cyflog ar gael yng Nghytundeb Cydweithredol Statws Sengl y Cyngor.

**Atodiad 1:** Graddfeydd cyflog y Cyd-Gyngor Cenedlaethol (Llyfr Gwyrdd Gweithwyr Llywodraeth Leol) yn weithredol o 1 Ebrill 2025 – 31 Mawrth 2026.

Cynyddodd cyflogau sylfaenol unigol yr holl swyddogion o fewn cwmpas telerau ac amodau 'Llyfr Gwyrdd' y Cyd-Gyngor Cenedlaethol gan 3.20%, yn weithredol o 1 Ebrill 2025. Mae'r cytundeb cyflog yn cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026.

Gwneir taliadau ychwanegol i'r grŵp cyflogeion hwn fel y manylir yng Nghytundeb Statws Sengl Lleol Cyngor Sir Fynwy.  Mae'r mathau o daliadau ychwanegol a wnaed yn cynnwys:

- Taliadau gwaith penwythnos ar gyfer dydd Sadwrn (amser a chwarter) a dydd Sul (amser a hanner).
- Gŵyl y Banc – Wedi'i dalu ar amser dwbl (Bandiau Cyd-Gyngor Cenedlaethol A-F) neu amser arferol ynghyd â diwrnod i ffwrdd yn lle (Band Cyd-Gyngor Cenedlaethol G ac uwch).
- Gweithwyr Nos – mae cyflogeion sy'n gweithio sifftiau nos rhwng 10.00pm a 6.00am yn cael cyflog amser a thraean.
- Gellir talu goramser am gyflogeion y gofynnir iddynt weithio mwy na 37 awr ac sy'n cael eu talu ar fandiau A i F y Cyd-Gyngor Cenedlaethol.

Enghreifftiau o daliadau eraill y gellid eu gwneud yw lwfans cymorth cyntaf, a thaliadau adleoli.   Nid yw Cyngor Sir Fynwy yn ad-dalu'r taliad o ffioedd cofrestru proffesiynol neu danysgrifio, ar gyfer unrhyw weithiwr/grŵp o weithwyr.

**Prentisiaid**

O 1 Ebrill 2021 ymlaen, gweithredodd y Cyngor strwythur cyflog Prentisiaethau sy'n cyd-fynd ag isafswm cyfraddau cyflog y Cyngor ac yn sicrhau cyfradd gyflog briodol a chyson ar draws pob rôl prentis, waeth beth fo'r fframwaith cymwysterau.

Mae'r egwyddor Prentis yn Gyntaf hefyd wedi'i mabwysiadu, sy'n golygu bod yn rhaid ystyried swyddi, sydd i'w recriwtio fel swydd a werthuswyd iddynt fel Band D neu lai (£27,254), fel cyfle prentisiaeth cyn cael eu hysbysebu.

**Achrediad Cyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol**

Cafodd Cyngor Sir Fynwy ei achredu gan y Real Living Wage Foundation, fel Cyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol, ar 21 Hydref 2025.  Cyflog Byw Gwirioneddol y DU, yn weithredol o 1 Ebrill 2025 ymlaen, yw £12.60 yr awr.

# 8. GWYBODAETH AM GYFLOGAU – GWEITHWYR HEBLAW AM RAI 'LLYFR GWYRDD' A PHRIF SWYDDOGION

Mae gan Gyngor Sir Fynwy hefyd gyflogeion ar delerau ac amodau cenedlaethol eraill, h.y. graddfa Soulbury'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol a thelerau ac amodau athrawon. Mae cyflog y cyflogeion hyn yn seiliedig ar raddfeydd cyflog y cytunwyd arnynt yn genedlaethol.

**Graddau Cyflog Cenedlaethol – Pwyllgor Soulbury.**

Mae gan Bwyllgor Soulbury ei raddfeydd cyflog ei hun ac mae'n cynnwys y grwpiau canlynol o gyflogeion:

- Arolygwyr ac Ymgynghorwyr Addysgol
- Seicolegwyr Addysg

Yn ogystal â'r cynnydd cyflog blynyddol, y Pwyllgor Soulbury sy'n pennu'r fframwaith cyflogau cenedlaethol. Bydd y Cyngor yn talu cynnydd cyflog yn y dyfodol wrth iddynt gael eu penderfynu yn unol â gofynion cytundebol.

**Polisi Cyflogau Athrawon**

Mae'r Polisi Cyflogau Athrawon yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ar gyflogau Athrawon. Fe'i datblygwyd i gydymffurfio â gofynion y Ddogfen Gyflog ac Amodau Athrawon Ysgol ac mae wedi bod yn destun ymgynghori ag undebau llafur addysgu. Darperir Polisi enghreifftiol i bob ysgol bob blwyddyn gydag argymhelliad gan y Cyngor bod y Corff Llywodraethu yn ei fabwysiadu a'i gyhoeddi ar wefan yr ysgol. Cynyddodd cyflogau sylfaenol unigol yr holl athrawon o fewn cwmpas y Ddogfen Cyflogau ac Amodau Athrawon Ysgol gan 4%, yn weithredol o 1 Medi 2025. Mae'r cytundeb cyflog yn cwmpasu'r cyfnod 1 Medi 2025 i 31 Awst 2026.

# 9. DILYNIANT CYNYDDRANNOL

Ar gyfer cyflogeion a gyflogir o dan delerau ac amodau cyflogaeth y Cyd-Gyngor Cenedlaethol, sef y 'Llyfr Gwyrdd', mae dilyniant cynyddrannol yn awtomatig. Fel arfer, dyfernir cynyddrannau ar 1 Ebrill bob blwyddyn. Lle mae gan Brif Swyddogion a Phenaethiaid Gwasanaeth raddfeydd cyflog cynyddrannol, mae'r dilyniant fel arfer ar 1 Ebrill bob blwyddyn.

## 10. RECRIWTIO - CYFLOG WRTH BENODI

Mae recriwtio a chadw ein cydweithwyr mwyaf talentog yn bwysig i ni.

Mae'r Cyngor yn cyflawni detholiad teg trwy bolisïau ac arferion tryloyw, teg a diwahaniaethol, sy'n galluogi triniaeth deg i ymgeiswyr yn ogystal â dangos ymrwymiad ehangach i egwyddorion diogelu a chydraddoldeb ac amrywiaeth.

Yn unol â'n Polisi a Chanllawiau Recriwtio a Dethol, mae swyddi'n cael eu hysbysebu ar y radd/ystod y cytunwyd arnynt ar gyfer y swydd benodol honno. Darperir gwybodaeth am yr isafswm a'r uchafswm cyflog yn yr hysbyseb. Yn ymarferol, mae'r rhan fwyaf o'r penodiadau'n cael eu gwneud ar waelod yr ystod graddau. Fodd bynnag, mae yna ddisgresiwn i benodi ar bwynt uwch ar yr ystod gyflog. Byddai hyn fel arfer ond yn berthnasol os oes angen cyfateb lefel cyflog presennol ymgeisydd.

## 11. ADOLYGIAD CYFLOG – POB CYFLOGAI

Adolygir yr holl gyflogau yn unol â'r dyfarniadau cyflog cenedlaethol a drafodir ar gyfer cynnydd mewn costau byw, pan fydd y rhain yn digwydd.

## 12. CYFRADD Y FARCHNAD

Cydnabyddir y bydd achlysuron eithriadol lle mae cyfradd y farchnad ar gyfer rhai swyddi allweddol yn uwch na'r hyn y darperir ar eu cyfer gan y strwythur cyflogau a graddio. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd graddio'r swydd yn cael ei adolygu'n unol â Pholisi Ychwanegiadau Grymoedd y Farchnad. Rhaid cymeradwyo pob taliad atodiad grymoedd y farchnad gan y Panel Gwerthuso Swyddi, yn unol â Pholisi a Chanllawiau Taliadau Atodiad Grymoedd y Farchnad.

## 13. CYNLLUN TALIADAU CYDNABYDDIAETH A THALIADAU GWEITHREDU MEWN SWYDD UWCH

Mae gan Gyngor Sir Fynwy gynllun ar gyfer gwneud taliad ychwanegol pan fydd cyflogai yn gweithredu i swydd ar lefel cyflog uwch neu pan fyddant yn ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol ar sail dros dro. Mae'r Polisi Taliadau Cydnabyddiaeth yn berthnasol i bob gweithiwr (ac eithrio gweithwyr addysgu), ac mae'n rhaid i bob taliad cydnabyddiaeth gael ei gymeradwyo gan y Panel Gwerthuso Swyddi, yn unol â'r Polisi a Chanllawiau Taliadau Cydnabyddiaeth.

# 14. TALIADAU YCHWANEGOL

**Teithio a Threuliau**

Mae milltiroedd busnes a dynnir gan weithiwr yn cael eu had-dalu ar gyfradd CThEF, yn unol â'n Polisi a Chanllawiau Teithio ac Ad-dalu.

**Adleoli**

Gall Cyngor Sir Fynwy ddarparu cymorth ariannol i recriwtiaid newydd fel rhan o'r pecyn cyflogaeth o dan delerau ein Polisi a Chanllawiau Adleoli.

**Ffioedd y Swyddog Canlyniadau**

Mae'n ofynnol penodi Swyddog Cofrestru Etholiadol gan Adran 8 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ac yn ofynnol penodi Swyddog Canlyniadau gan Adran 35 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

O fewn Cyngor Sir Fynwy, y Prif Weithredwr sydd â rôl y Swyddog Cofrestru Etholiadol a'r Swyddog Canlyniadau. Mae'r ffi ar gyfer etholiadau Seneddol, yr Undeb Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a phob refferendwm yn cael eu pennu gan ddeddfwriaeth. Mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i bennu'r ffi ar gyfer etholiadau lleol. Yn y Cyngor, caiff y ffi ar gyfer etholiadau lleol ei phennu yn unol â'r ffi y cytunwyd arni ar gyfer etholiadau Llywodraeth Cymru.

# 15. LLUOSYDDION

Mae'r canllawiau statudol o dan y Ddeddf Lleoliaeth yn argymell defnyddio lluosymiau cyflog fel modd o fesur y berthynas rhwng cyfraddau cyflog ar draws y gweithlu a'r hyn a geir gan uwch reolwyr, fel y'i cynhwyswyd yn Adolygiad Hutton ‘Cyflog Teg yn y Sector Cyhoeddus (2010)’. Gofynnodd y Llywodraeth i Adroddiad Hutton archwilio'r achos dros derfyn penodol ar wasgariad cyflog drwy ofyniad na all unrhyw reolwr sector cyhoeddus ennill mwy nag 20 gwaith y person sydd â'r cyflog isaf yn y sefydliad. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod y berthynas ag enillion canolrifol yn fesur mwy perthnasol ac mae Cod Ymarfer Cymeradwy'r Llywodraeth ar Dryloywder Data yn argymell cyhoeddi'r gymhareb rhwng y cyflog uchaf a delir a chyflog cyfartalog canolrifol holl weithlu'r Awdurdod Lleol.

Mae lluosrifau cyflog Cyngor Sir Fynwy fel a ganlyn:

- Y lluosrif rhwng y cyflogai cyfwerth ag amser llawn ar y cyflog isaf a'r Prif Weithredwr yw 6:1 (yr un fath â'r flwyddyn flaenorol)
- Y lluosrif rhwng y cyflogai cyfwerth ag amser llawn ar y cyflog isaf a phrif swyddogion ar gyfartaledd yw 3:1 (4:1 yn y flwyddyn flaenorol)
- Y lluosrif rhwng y cyflogai cyfwerth ag amser llawn ar y cyflog isaf canolrifol a'r Prif Weithredwr yw 5:1 (yr un fath â’r flwyddyn flaenorol)
- Y lluosrif rhwng y cyflogai cyfwerth ag amser llawn ar y cyflog isaf canolrifol a phrif swyddogion ar gyfartaledd yw 3:1 (yr un fath â'r flwyddyn flaenorol)

## 16. TALIADAU/COSTAU A CHYFRANIADAU

Mae gan holl weithwyr Cyngor Sir Fynwy (ac eithrio athrawon, sydd â'r hawl i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Athrawon) hawl i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a gynigir gan y Cyflogwyr Llywodraeth Leol. Os yw gweithwyr yn gymwys, byddant yn dod yn aelod o'r cynllun yn awtomatig o dan y darpariaethau cofrestru awtomatig.

Gall cyflogeion benderfynu eithrio o'r cynllun o fewn un mis o gofrestru awtomatig. Mae'r buddion a'r cyfraniadau sy'n daladwy o dan y gronfa bensiwn wedi'u nodi yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r holl gyflogeion sy'n aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gwneud cyfraniadau unigol i'r cynllun yn unol â'r tabl canlynol:

**Canrannau didynnu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (01/04/2025)**

| Tabl cyfraniadau 2025/26 | | | |
|---|---|---|---|
| **Band** | **Cyflog pensiynadwy gwirioneddol ar gyfer cyflogaeth** | **Gyfradd cyfrannu ar gyfer y gyflogaeth honno** | |
| | | Prif Adran | Adran 50/50 |
| 1 | Hyd at £17,800 | 5.50% | 2.75% |
| 2 | £17,801 i £28,000 | 5.80% | 2.90% |
| 3 | £28,001 i £45,600 | 6.50% | 3.25% |
| 4 | £45,601 i £57,700 | 6.80% | 3.40% |
| 5 | £57,701 i £81,000 | 8.50% | 4.25% |
| 6 | £81,001 i £114,800 | 9.90% | 4.95% |
| 7 | £114,801 i £135,300 | 10.50% | 5.25% |
| 8 | £135,301 i £203,000 | 11.40% | 5.70% |
| 9 | £203,001 neu fwy | 12.50% | 6.25% |

# 17. TALIADAU DEWISOL

Mae'r polisi ar gyfer dyfarnu unrhyw daliadau dewisol yr un fath ar gyfer pob cyflogai, waeth beth fo'u lefel cyflog.  Mae'r trefniant canlynol yn berthnasol ar gyfer taliadau diswyddo o dan reoliad 5 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Iawndal Dewisol) (Cymru a Lloegr) 2006:

- Talu cyfandaliad cyffredinol o 1.7 gwaith y lluosydd cyflog dileu swydd statudol, yn seiliedig ar gyflog wythnosau gwirioneddol hyd at derfyn o Bwynt Cyflog 43. Mae hyn yn daladwy i weithwyr (nid y rhai ar delerau ac amodau cyflogaeth addysgu) a ddiswyddwyd gyda 2 flynedd neu ragor o wasanaeth llywodraeth leol beth bynnag fo'u hoed, ar yr amod eu bod yn gymwys i ymuno â'r cynllun pensiwn. Mae hyn yn unol â'n Polisi Diogelu Cyflogaeth (corfforaethol).

# 18. GWNEUD PENDERFYNIADAU

Mae gwneud neu gadarnhau penodiad y Prif Weithredwr ac aelodau o'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol yn swyddogaeth y Cyngor, ac mae gwneud neu gadarnhau penodiad Prif Swyddogion eraill yn swyddogaeth y Cyngor a/neu'r Pwyllgor Penodiadau.

Bydd manylion taliadau ymadael yn cael eu cymeradwyo gan y Prif Swyddog Perthnasol (a'r Prif Weithredwr ar gyfer cytundebau setlo) mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet a rhaid bod achosion busnes cadarn yn cyfiawnhau’r gadael ac yn cynrychioli gwerth am arian.  Bydd unrhyw daliad ymadael dros £95,000 yn cael ei adrodd i'r Cyngor Llawn.

# 19. ADOLYGIAD O'R POLISI

Mae'r Polisi Cyflog hwn yn amlinellu'r sefyllfa bresennol o ran cyflog a gwobrwyon o fewn y Cyngor a chaiff ei adolygu dros y flwyddyn nesaf er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni egwyddorion tegwch, cydraddoldeb, atebolrwydd a gwerth am arian i ddinasyddion Sir Fynwy.

Caiff y Polisi ei adolygu'n flynyddol a'i adrodd i'r Cyngor yn unol â gofynion Deddf Lleoliaeth 2011.

Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau 'Atebolrwydd Talu o fewn Llywodraeth Leol'.  Wrth adolygu'r Polisi Cyflog ar gyfer 2025/26, mae llawer o'r canllawiau hyn wedi'u hystyried.

Gellir gwneud unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol pellach, cyn yr adolygiad blynyddol nesaf ac ar ôl gweithredu'r darpariaethau y cyfeirir atynt yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, fel y'u nodir yng nghorff y polisi hwn, o dan bwerau a ganiateir yn unol ag Adran 39 o Ddeddf Lleoliaeth 2011.

# Atodiad 1

Graddfeydd cyflog y Cyd-Gyngor Cenedlaethol (Llyfr Gwyrdd Gweithwyr Llywodraeth Leol) ar waith rhwng 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2026.

| SCP | Bandiau Cyflog | Cyflog 01/04/2025 | Cyfradd yr awr |
|---|---|---|---|
| 1 | WEDI DILEU | | |
| 2 | A (1-3) | 24413.00 | £12.65 |
| 3 | | 24796.00 | £12.85 |
| 4 | B (3-5) | 25185.00 | £13.05 |
| 5 | | 25583.00 | £13.26 |
| 6 | C (5-8) | 25989.00 | £13.47 |
| 7 | | 26403.00 | £13.69 |
| 8 | | 26824.00 | £13.90 |
| 9 | | 27254.00 | £14.13 |
| 10 | | 27694.00 | £14.35 |
| 11 | D (9-13) | 28142.00 | £14.59 |
| 12 | | 28598.00 | £14.82 |
| 13 | | 29064.00 | £15.06 |
| 14 | | 29540.00 | £15.31 |
| 15 | | 30024.00 | £15.56 |
| 16 | E (14-18) | 30518.00 | £15.82 |
| 17 | | 31022.00 | £16.08 |
| 18 | | 31537.00 | £16.35 |
| 19 | | 32061.00 | £16.62 |
| 20 | | 32597.00 | £16.90 |
| 21 | F (19-23) | 33143.00 | £17.18 |
| 22 | | 33699.00 | £17.47 |
| 23 | | 34434.00 | £17.85 |
| 24 | G (23-27) | 35412.00 | £18.35 |

| Cyflog Byw Gwirioneddol* yn weithedol o: | | |
|---|---|---|
| | 01/04/2024 | £12.00 |
| | 01/04/2025 | £12.60 |

| SCP | Bandiau Cyflog | Cyflog 01/04/2025 | Cyfradd yr awr |
|---|---|---|---|
| 25 | G (23-27) | 36363 | £18.85 |
| 26 | | 37280 | £19.32 |
| 27 | | 38220 | £19.81 |
| 28 | | 39152 | £20.29 |
| 29 | H (27-31) | 39862 | £20.66 |
| 30 | | 40777 | £21.14 |
| 31 | | 41771 | £21.65 |
| 32 | | 42839 | £22.20 |
| 33 | I (31-35) | 44075 | £22.85 |
| 34 | | 45091 | £23.37 |
| 35 | | 46142 | £23.92 |
| 36 | | 47181 | £24.46 |
| 37 | J (35-39) | 48226 | £25.00 |
| 38 | | 49282 | £25.54 |
| 39 | | 50269 | £26.06 |
| 40 | | 51356 | £26.62 |
| 41 | K (39-43) | 52413 | £27.17 |
| 42 | | 53460 | £27.71 |
| 43 | | 54495 | £28.25 |
| 44 | | 55643 | £28.84 |
| 45 | L (43-47) | 56754 | £29.42 |
| 46 | | 57883 | £30.00 |
| 47 | | 58970 | £30.57 |
| 48 | | 60183 | £31.19 |
| 49 | M (47-51) | 61399 | £31.82 |
| 50 | | 62614 | £32.45 |
| 51 | | 63827 | £33.08 |

* Cyfrifir y gyfradd fesul awr drwy rannu'r Cyflog Blynyddol â 52.143 wythnos (sy'n 365 diwrnod wedi'i rannu â 7) ac yna ei rannu â 37 awr (yr wythnos waith safonol yn 'Llyfr Gwyrdd' y Cytundeb Cenedlaethol)